

Darparu ar gyfer y Dyfodol....

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i gyrff cyhoeddus edrych i'r tymor hir fel bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud nawr ddim yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag diwallu eu hanghenion.

Er mwyn ein helpu ni i wneud hyn, rydyn ni wedi edrych ar yr wybodaeth sydd ar gael i adnabod tueddiadau a rhagfynegiadau y gallwn ni eu hystyried. Mae rhai darnau o wybodaeth yn haws i'w canfod nag eraill, felly rydyn ni'n gweithio gyda chyrrff cenedlaethol i lunio a gwella argaeledd a hygyrchedd tueddiadau data tymor hir fel bod modd iddyn nhw gefnogi ein gwaith yn well. Fel man cychwyn, i grynhoi'r data am y tueddiadau sy'n cael eu rhestru isod rydyn ni wedi defnyddio adroddiad [Llywodraeth Cymru, Tueddiadau'r Dyfodol](#) a gafodd ei gyhoeddi yn 2018, adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Dyfodol i Gymru](#) a gafodd ei gyhoeddi yn 2018 hefyd, yn ogystal ag adroddiadau gan [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), [Stats Cymru](#) ac adroddiadau polisi Llywodraeth Cymru, e.e. [Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel](#). Mae'r wybodaeth wedi'i chategoreiddio yn ôl yr ardal y mae'n berthnasol iddi, h.y. RhCT, Cwm Taf, Cymru neu'r DU gyfan.

Poblogaeth	<p>RhCT</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae disgwyl bydd poblogaeth RhCT yn cynyddu i 246,481 erbyn 2039<ul style="list-style-type: none">○ Plant 0-15 oed - cynnydd o 0.5% (44,717 - 44,941)○ Pobl 16-64 oed - gostyngiad o 5.3% (148,976 - 141,479)○ Pobl 65 oed a hŷn - cynnydd o 32% (45,434 - 60,061)• Bydd disgwyliad oes dynion a menywod yn cynyddu 5 mlynedd erbyn 2066. <p>Cwm Taf</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n cael ei ragweld bydd nifer y bobl yng Nghwm Taf yn codi (amcangyfrif canol blwyddyn 2017) i 304,543 erbyn 2039. <p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n cael ei ragweld bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 5% erbyn 2039, gyda'r cynnydd mwyaf yn y nifer o bobl sy'n 85 oed a hŷn, bydd y rhan yma o'r boblogaeth yn fwy na dyblu.• Mae'n cael ei ragweld bydd y gymhareb o bobl hŷn o gymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru erbyn 2039.• Mae pobl yn byw bywydau sy'n hirach ond nid o reidrwydd yn iachach, gan arwain at gostau uwch ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. <p>Y DU</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'n cael ei ragweld bydd nifer y bobl yn y DU yn codi (amcangyfrif canol blwyddyn 2017) i 72,471,000 erbyn 2039.
------------	--

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Cymru lewyrchus</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai gwariant ar iechyd yng Nghymru gynyddu o 42% o'r gyllideb refeniw (2010-11) i rhwng 57% a 67% erbyn 2024-25. • Mae dadansoddiad gan y Llywodraeth yn awgrymu bod yr economi carbon isel eisoes yn cefnogi dros 430,000 o swyddi. Mae'n cael ei ragweld bydd yr economi carbon isel yn tyfu oddeutu 11% bob blwyddyn can 2030 - bedair gwaith yn gyflymach na chyfradd twf cyfartalog economi'r DU gyfan. <p>Y DU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dros y 10 i 20 mlynedd nesaf, bydd hyd at 35% o swyddi presennol y DU mewn perygl o gael eu hawtomeiddio. • Bydd cynnydd yn nifer y swyddi proffesiynol a thechnegol lefel uwch ac mewn galwedigaethau gofalu a gwasanaethu. • Mae'n bosibl bydd datblygiadau mewn technoleg, cyfrifiaduron a deallusrwydd artifisial yn arwain at golli 700 o alwedigaethau yn y DU. • Erbyn 2022, bydd 1 o bob 5 swydd newydd yn y DU ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg. • Mae ansicrwydd ynghylch effaith 'Brexit' ar faterion fel yr economi wledig, diogelu'r cyflenwad bwyd, y farchnad lafur a chyflogaeth.
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Cymru gydnherth</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhagolygon hinsawdd yn dangos ein bod yn fwy tebygol o weld gaeafau mwynach, gwlypach a hafau poethach, sychach ac y bydd lefelau'r môr yn codi a bydd cynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. • Erbyn yr 2050au, mae'n cael ei amcangyfrif bydd tymheredd cyfartalog yr haf yn cynyddu 1.0-4.6°C, bydd gwlybanaeth cyfartalog y gaeaf yn cynyddu 14% a bydd gwlybanaeth cyfartalog yr haf yn gostwng 17%. • Bydd newid yn yr hinsawdd yn peri risgiau o fewn y ddwy genhedlaeth nesaf yn cynnwys llifogydd; sychder (gyda chanlyniadau ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio a chynhyrchu bwyd); a difrod i ecosystemau a bioamrywiaeth. • Llifogydd sy'n cael eu heffeithio gan newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol sy'n peri'r risg hirdymor fwyaf i safon ein rhwydweithiau trafndiaeth, ein seilwaith tanddaearol, ein seilwaith ynni a digidol a'n cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Mae modd i'r risgiau cynyddol o wres, prinder dŵr a thirlithriadau a fydd yn cael eu hachosi gan dywydd garw fod yn sylweddol hefyd. • Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru dan bwysau cynyddol, ac yn adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang. • Mae'n cael ei amcangyfrif bydd cost difrod o ganlyniad i lifogydd yng Nghymru yn cynyddu o £70 miliwn i £1,235 miliwn y flwyddyn rhwng 2004 a'r 2080au. • Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd yn cynnwys afiechydon newydd yn ymddangos, rhagor o farwolaethau oherwydd gwres a llai o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel.

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Cymru iachach</p>	<p>Cwm Taf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd 68.7% o oedolion yn ordew neu dros eu pwysau erbyn 2025 <p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gyda'r ymdrechion presennol, mae cyfraddau ysmegu yng Nghymru yn debygol o ostwng i 15% erbyn 2025. • Mae'n cael ei ragweld bydd cyfran yr oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghymru yn cynyddu o 58.3% (2013-15) i 62.2% (2025). • Mae rhagamcanion ar gyfer Cymru yn dangos bydd cynnydd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig rhwng 2017 a 2035, gan gynnwys diabetes (o 186,365 i 220,376), cyflyrau ar y galon (o 253,406 i 321,986) a strôc (o 69,656 i 90,214). • Erbyn 2035, bydd nifer yr oedolion ag anhwylderau iechyd meddwl cyffredin yn cynyddu o 417,121 yn 2017 i 447,159. • Yn ôl amcangyfrifon, bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn cynyddu o 44,275 yn 2017 i 72,769 yn 2035.
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Cymru sy'n fwy cyfartal</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erbyn 2024, mae disgwyl i'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y pumed ran fwyaf difreintiedig a'r pumed rhan lleiaf difeintiedig o boblogaeth Cymru fod yn 12.7 mlynedd i fenywod ac 11.4 mlynedd i ddynion. • Mae'n bosibl bydd dwiygiadau lles yn cymryd £1 biliwn o economi Cymru erbyn 2025. Mae hyn yn cyfateb â £550 y flwyddyn i bob oedolyn o oedran gweithio. • Mae'n cael ei ragweld bydd y bil bwyd blynyddol yn cynyddu £350 ar gyfartaledd i bob cartref erbyn 2019. <p>Y DU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cael ei ragweld bydd tlodi cymharol yn y DU yn cynyddu o 21.3% i 23.6% rhwng 2014-15 a 2021-22. Mae'n cael ei ragweld bydd tlodi plant cymharol yn cynyddu o 29% i 35.7% yn yr un cyfnod.
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Cymru o gymunedau cyllynus</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae oddeutu un o bob pedwar oedolyn sy'n byw yn y 1/5 fwyaf difreintiedig o Gymru yn nodi eu bod yn teimlo'n unig o gymharu ag un o bob wyth oedolyn sy'n byw ym 1/5 lleiaf difreintiedig Cymru. Mae rhai grwpiau, fel cartrefi pensiynwyr unigol, yn agored i arwahanrwydd cymdeithasol ac mae'r sefyllfa yma yn debygol o waethygu yn yr ugain mlynedd nesaf. • Erbyn 2020, bydd yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol wella stoc tai er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. • O fewn y 10 mlynedd nesaf, mae'n cael ei ragweld bydd gan bob cartref yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwyd, os bydd y gyfradd dwf gyffredol yn parhau. • Serch hynny, gallai rhai grwpiau, fel pobl hŷn ynysig, ddod yn fwyfwy eithredig. • Mae'n cael ei ragweld bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth gyffredinol. Byddai hyn yn arwain at aelwydydd llai o faint.

<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n cael ei amcangyfrif bod colled o rhwng 1,200 a 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn. • Mae pryder bod y Gymraeg mewn perygl o gael ei cholli i genedlaethau'r dyfodol, er gwaethaf y nifer cynyddol o blant a phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg. • Mae'n cael ei ragweld bydd lleoliadau a gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned ac y mae'r gymuned yn berchen arnyn nhw yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad diwylliannol. Mae costau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at weithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn debygol o effeithio'n negyddol ar ardaloedd difreintiedig.
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>	<p>Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • O'r holl brif ddinasoedd ym Mhrydain, mae disgwyl i Gaerdydd brofi'r cynnydd mwyaf yn y galw am nwy (44%) a thrydan (28%) erbyn 2035. • Ebryn 2020, bydd tua 80% o danwydd yn cael ei fewnforio. • Erbyn 2021, mae un ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhagweld y gallai 67% o'r defnydd o drydan ac 11% o'r galw am wres fod trwy ffynonellau adnewyddadwy. • Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i gael sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi bod Cymru'n lleihau allyriadau 80% erbyn 2050.